




Berfau!

Darlith 2 Badd 1

Aneirin Karadog

Tachwedd 9 2021

Heddiw, byddwn ni'n...

- ◆ Adolygu Rhannau Ymadrodd
- ◆ Trafod Berfau – sicrhau ein bod yn defnyddio'r ffurfiau cywir!

Rhannau Ymadrodd



Mewn grwpiau o 3, trefnwch y cardiau i dair colofn ystyrlon – oren, melyn a glas

Cardiau melyn – enw'r rhan ymadrodd

Cardiau oren – disgrifiad o'r rhan ymadrodd

Cardiau glas – enghraifft o'r rhan ymadrodd

Berfau!

- ◊ Beth ydyn nhw?
- ◊ Pam maen nhw'n bwysig?

**Cyfnod Allweddol 2:
Rhaglen Astudio**

Llafaredd

Sgiliau
Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:
... astud gan god

- Rhyddiol chi cyfleoedd i'r awdurdod**
1. wylïo a gwrandao'n astud gan godi'r prif bwyntiau
 2. ymateb yn ymestynol gan:
 - adnabod y prif bwyntiau
 - holi a chynigïo sylwadau
 - gwneud nodiadau ar sail eu hymholiadau a'u defnyddio
 3. cyfathrebu:
 - yn glir ac yn hyderus
 - mesur modd sy'n addas ar gyfer y mynyddiadau a'i phwrpas
 - gan ddefnyddio ystwm a gosïet yn briodol
 4. datblygu eu hymwybyddiaeth o gonfensiynau cymdeithasol sgwrsio a thrafod
 5. cadarnhau'r gystawen Gymraeg trwy ddatblygu eu gallu i:
 - ddefnyddio awyriaeth o strwythurau
 - brawddegol a gerïa yn gywir
 - defnyddio iaith goeth, rhywiog ac ystod gynyddol o eirfa
 - osgoi defnyddio gerïau, ymadroddion a phatrymau Saesneg a Seisnig eu nawys yn ddiangen
 6. adnabod gwahanol awyriaethau a'u defnyddio i:
 - ysgrïed sut y mae iaith ffurfiol ac afaelïol yn amrywïo yn ôl y cyd-destun a phwrpas
 - methrin cywirdeb trwy:
 - a. ddefnyddio ffurfiol bertoï (amser a pherson)
 - b. negyddu brawddegol
 - c. defnyddio arddodiaid
 - d. gwrthod
 - e. gwahanïaethu rhwng gerïau tebyg
 - f. defnyddio cenedi enwau
 - 7. gwerthuso eu siarad eu hunain ac eraïl ac ysgrïed sut i wella gan feddwl am y modd y mae siaradwyr, gan gymysgu nïw eu hunain, yn addasu gerïa, tîb, cyflwrna ac arddïl eu sgwrs i amgylchiadau gwahanol.

Cymraeg
CA2

**Cyfnod Allweddol 2:
Rhaglen Astudio**

Ysgrifennu

Sgiliau
Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

- byllia mawr**
1. ddefnyddio nodweddion y ffigur i ddarparu gwybodaeth
gan adeddu eu harddull yn unol â'r gynllunleida a'r pwmpas
 2. cyysylltu brawddegau a chymalau yn defnyddio dealladuriaeth yn y drefnus; defnyddio cystrawenau amrywiol Cymraeg a pheragraffu'n effeithiol
 3. defnyddio atalnodi i gyflwynu ystyr priodol gan gymnwys:
 - atalnodi
 - atalnodi llawn
 - golynnddi
 - dyfynnod
 - ebychnod
 - colind
 - acen grom
 - pwyntiau bwled
 4. dewis a defnyddio geirfa briodol, datlygu (atnodi, gwneid, hysgwyr) a defnyddio i greu effeithiau
 5. methrin cwyirdeb trwy:
 - adefnyddio ffurfiau berfol
 - negyddu brawddegau
 - defnyddio arddodiaid
- osopi geriau, ymroddiad
Saesneg a Seisng diangen
6. defnyddio ystod o strategaethau i'w galluogi i sillafu'n gwrir; gwrio sillafu trov defnyddio dulliau amrywioi, gan gymnwys TGCH
 7. defnyddio geirfa a thermineol briodol wrth ystyried a gwerthusu eu gwaith eu hunain, a gwaith eraill
 8. drafftio a gwellu eu gwaith gan ddarparu i chynlunio
 - baratoi a chynlunio
 - drafftio ac alldrafftio'r cynnwys a'r iaith
 - prawf-ddarlenn
 - paratoi copi terfynol
 9. cyfyngu'u gwaith yn briodol gan:
 - ddatlygu llawysgrifren
 - ddarlennadu, yn unol â chontensiwn
 - defnyddio dulliau cyfyungo a gosod prwpasioi, gan gymnwys TGCH.

Fframwaith y
Cyfnod Sylfaen
2015

Llinyn: Ysgrifennu			
Enffennau	Agweddau	Meithrin	
Trefnu syniadau a gwybodaeth	Stwythwr a llefn	Mae plant yn gallu:	Dosbarth derbyn
			Mae plant yn gallu:
		Gyfrannu ar lalar gan dilyn flurf wedi'i modelu gan oedolyn	teichrau gosod geiriau, anwyddion neu symbolau mewn dilyniant priodol
			Gyfrannu i flurf gyda wedi'i modelu gan yr athro/aithraves, e.e. drwy ysgrifennu ar y cyl
			dangos dealltwriaeth o wahanol ffurfiau, e.e. cardiau, rhestr, gwaithdoliadau
		dangos dealltwriaeth, mewn termau swyddogaeth iaith ysgrifenedig, e.e. wrth chwarae rôl	defnyddio iaith sy'n gysylltiedig ag ysgrifennu, e.e. i'w hysgrifennu, gair
Ysgrifennu'n gywir	laith		defnyddio geiriau penodol sy'n ymwneud â phwnc eu ysgrifennu
			defnyddio geiriau sy'n rhoi trefn ar destun, e.e. i ddechrau, yma
			dangos ymwybyddiaeth bod rhai synau'n newid ar ddechrau geiriau, e.e. dau gi
			dangos ymwybyddiaeth bod rhai synau'n newid ar ddechrau geiriau, e.e. y fferch
			defnyddio geiriau sy'n helpu a threfnu'r broses ysgrifennu, e.e. byrddau darlennu, mapiau meddwl
			deall gwaithdoliadau o ysgrifennu, e.e. cofnod o ddigwyddiadau, digriflaciadu
			defnyddio iaith sy'n gysylltiedig ag ysgrifennu, e.e. gofynod, prifffyrthyn, ebychnod
			deall a defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer ysgrifennu, e.e. ens, berfennu, ansodair
			defnyddio geiriau syml sy'n perthyn i'r broses mewn modd priodol
			defnyddio geiriau trefnu, e.e. yn gyntaf, yna, yna'n ddiwedd
			defnyddio ffurfiau safonol beriau, e.e. gweld/gwelais, myndaeth, a dhyntueth berf a goddych, e.e. roeddyn i'wrodden ni
			defnyddio amall drefnol i'w hysgrifennu, e.e. yfory, yfory, yfory, yfory
			defnyddio amall drefnol i'w hysgrifennu, e.e. yfory, yfory, yfory, yfory



Adolygu - Beth ydy'r gwahaniaeth rhwng berf a berfenw?

Bwyta



Berfenw

Bwytais



Berf



Bwyta = BERFENW

Dim ond dangos gweithred a wna 'bwyta'.

?

Berfenw = enw ar y weithred



Bwytaais = BERF

Mae 'bwytaais' hefyd yn dangos **gweithred**, ond mae hefyd yn cynnig ychydig mwy o **fanylion** trwy'r **terfyniad 'ais'**:

Mae berfau felly'n dweud 3 pheth wrthym ni:

- | | | |
|-----------------------------|-------|-------------|
| 1. beth sy'n cael ei wneud | BETH? | |
| 2. pwy sy'n ei wneud | PWY? | |
| 3. pryd mae'n cael ei wneud | PRYD? | ddoe |

ADOLYGU ... BERF NEU FERFENW?



- | | | |
|-------------|------------|----------------|
| • anghofio | ▶ gwariais | ▶ penderfynodd |
| • bydd | ▶ gwelais | ▶ rhedeg |
| • cofrestru | ▶ gwrando | ▶ rhedwn |
| • credaf | ▶ gwybod | ▶ talu |
| • dylent | ▶ gwyddai | ▶ ymlacio |
| • ewch | ▶ marcio | ▶ ysgrifennaf |
| • gorflino | ▶ mynd | ▶ cysgu |

BETH SY'N CAEL EI WNEUD?

Rhan gyntaf y ferf sydd yn rhoi'r wybodaeth yma i ni ...

CANAIS

CAN(U)+AIS

PENDERFYNODD

PENDERFYN(U) +ODD

DARLLENON

DARLLEN + ON

PWY SY'N EI WNEUD?

Y terfyniad fydd yn rhoi'r wybodaeth yma i ni ...

Mae chwe 'pherson' gwahanol i'r ferf ...

person 1af unigol

FI

2il berson unigol

TI

3ydd person unigol

EF / HI / JOHN

person 1af lluosog

NI

2il berson lluosog

CHI

3ydd person lluosog

NHW

PRYD MAE'N CAEL EI WNEUD?

Y terfyniad fydd yn rhoi'r wybodaeth yma i ni hefyd.

Mae nifer o amseroedd gwahanol i'r ferf, yn cynnwys ...



SUT YDW I'N DEFNYDDIO BERFENW?

Mae'n rhaid defnyddio ffurf ar y ferf 'bod' gyda berfenw a dyma sy'n rhoi ffurf GWMPASOG y ferf i ni, sef y ffordd hir o ddweud rhywbeth. Yn aml y ffordd hir (CWMPASOG) fyddwn ni'n ei ddefnyddio ar lafar wrth siarad e.e.

Mae e wedi *gweld* y ffilm.

berfenw

ffurf ar y ferf 'BOD'

BERF NEU FERFENW? PA UN DDYLWN I DDEFNYDDIO?

Byddwn yn defnyddio berfau neu ferfenwau mewn brawddeg mewn un o ddwy ffordd:

naill ai

- yn eu ffurfiau cwmpasog

Mae Huw wedi ennill

neu

- yn eu ffurfiau cryno

Enillodd Huw

BETH YW FFURF GWMPASOG?

- Ffurf gwmpasog yw'r ffordd hir o ddweud rhywbeth
- Mae'n rhaid defnyddio ffurf ar y ferf 'BOD' gyda berfenw
- Mae gwahanol amser i'r ferf 'BOD' yn cynnwys – presennol, dyfodol, gorffennol ac amherffaith

Y FERF 'BOD'

Gorffennol (perffaith)	Amherffaith	Presennol	Dyfodol
Rydw i wedi Rwyf ti wedi Mae e / hi wedi Rydyn ni wedi Rydych chi wedi Maen nhw wedi	Roeddwn i Roeddet ti Roedd e / hi Roedden ni Roeddech chi Roedden nhw	Rydw i Rwyf ti Mae e / hi Rydyn ni Rydych chi Maen nhw	Byddaf i Byddi di Bydd e / hi Byddwn ni Byddwch chi Byddan nhw

CYFIEITHWCH RHAIN GAN DDEFNYDDIO'R FFURFIAU CWMPASOG...

I walked to school every
day when I was a child.

Roeddwn i'n **cerdded** i'r **ysgol**
bob dydd pan oeddwn yn
blentyn.

She has won the
Eisteddfod chair once.

Mae hi wedi **ennill** **cadair** yr
Eisteddfod unwaith.

I will write that essay
tonight.

Edrychwch ar y
geiriau mewn
print coch a
glas – beth
ydych chi'n
sylwi?

Bydda i'n **ysgrifennu**'r
traethawd heno.

They have marked all the
books.

Maen nhw wedi **marcio**'r **llyfrau** i
gyd.

BETH YDYCH CHI'N SYLWI?

Gyda'r ffurfiau cwmpasog, byddwn ni'n defnyddio BERFENW bob tro.

Fydd gwrthrych y ferf (y person/peth sy'n 'dioddef' y weithred) DDIM YN TREIGLO gyda'r ffurfiau cwmpasog.

Mae hi wedi **ennill** **cadair** yr Eisteddfod unwaith.

Enillodd hi **gadair** yr Eisteddfod unwaith.

BETH YW BERF GRYNO?

BERF GRYNO yw'r ffordd fyrrach o ddweud rhywbeth. Ystyriwch y ddwy frawddeg ganlynol:

Mae Siôn wedi darllen llyfr.

Mae ystyr rhain yn union yr un fath. **Cwmpasog** yw'r cyntaf. **Cryno** yw'r ail.

Darllenodd Siôn llyfr.

BETH YW'R GWAHANIAETH RHWNG BERF GRYNO A BERF GWMPASOG?

Rydym yn defnyddio y ffurfiau cwmpasog mewn sefyllfaoedd ble rydym am i'r iaith fod yn fwy anffurfiol, yn enwedig ar lafar.

Mae'r berfau cryno yn fwy ffurfiol, ac felly, maen nhw'n gweddu i sefyllfaoedd ffurfiol yn enwedig rhai ffurfiau ysgrifennu e.e traethodau ac aseiniadau Prifysgol.

YDYCH CHI'N GWYBOD PA DERFYNIADAU SY'N CYFATEB I BA AMSER?

YMARFER.


Llinell Amser Berfau ...

Y Gorffennol

Y Presennol

Y Dyfodol

Yr Amherffaith




Cofiwch: Dyma'r terfyniadau ar gyfer y berfau rheolaidd - fydd pob berf ddim yn dilyn y patrymau hyn.
Y berfenwau afreolaidd mwyaf adnabyddus ydy **mynd, dod, cael a gwneud**.



-ais i
-aist ti
-odd e
-odd hi
-on ni
-och chi
-on nhw

-a i / -af i
-i di
-iff e / -a ef
-iff hi / -a hi
-wn ni
-wch chi
-an nhw

-wn i
-et ti
-ai e/hi
-em ni
-ech chi
-en nhw




TERFYNIADAU'R BERFAU CRYNO RHEOLAIDD

Presennol/ Dyfodol	Gorffennol	Amherffaith
Pryn – AF I Pryn – I DI Pryn – A/IFF/ITH E/HI Pryn – WN NI Pryn – WCH CHI Pryn – AN NHW	Pryn – AIS I Pryn – AIST TI Pryn – ODD E/HI Pryn – OM NI Pryn – OCH CHI Pryn – ON NHW	Pryn – WN I Pryn – ET TI Pryn – AI E/HI Pryn – EM NI Pryn – ECH CHI Pryn – EN NHW
Pryn - IR	Pryn - WYD	Pryn - ID

Mae'n RHAID dysgu'r terfyniadau yma

Peidiwch
â phoeni
am y
rhain
nawr –
dewn ni
nôl atyn
nhw ...

YMARFERION ...



**Ymarferion
Darlith 2 Berfau**

FFURFIO'R GOFYNNOL ...

I ffurfio cwestiwn, rhaid i ni ychwnaegu **A** o flaen y ferf. Mae'r **A** yn achosi treigladau meddal.

A ddarlleni di?

Gallwn ni hepgor yr A, ond bydd y treigladau yn aros ...

Ddarlleni di?

Tasg: Meddyliwch am **bum** cwestiwn y gallech chi eu defnyddio yn y dosbarth, sy'n dechrau gyda berf – ceisiwch ddefnyddio amserau gwahanol y ferf.

FFURFIO'R NEGYDDOL ...

I ffurfio'r negyddol rhaid i ni ychwanegu **Ni** o flaen y ferf. Mae **Ni** yn achosi treigladau meddal mewn berfau sy'n dechrau â **d, g, b, ll, m, rh** a threigladau llaes mewn berfau sy'n dechrau â **t, c, p**.

Ni lwyddan nhw

Ni welwn ni

Ni chlywaf i

Eto, gallwn ni hepgor y **Ni** ond bydd y treigladau yn parhau, ac mae angen ychwanegu 'ddim' ...

Lwyddan nhw ddim Welwn ni ddim

Chlywa i ddim

TROWCH Y CANLYNOL I'R NEGYDDOL ...

- Gwela i di 'fory.
- Cymerwn ni'r tocynnau.
- Pryniff hi'r gwerslyfr.
- Canwn ni heno.
- Bwyti di swper.
- Rhoddwn ni arian i'r gronfa
- Dangosiff e i chi.



COFIWCH ...

Bydd gwrthrych berfau cryno cadarnhaol yn treiglo'n feddal.

Darllenaf i lyfr.

Prynwn ni **b**edwar tocyn.

Cyrhaeddwn ni **g**opa'r Wyddfa cyn 10 o'r gloch.

OND

Ddarllenaf i ddim llyfr

Phrynwn ni ddim pedwar tocyn



TREIGLO'R GWRTHRYCH ...

Cywirwch y gwallau, lle bo angen ...

- Ysgrifennaf i llythyr atoch chi i gadarnhau'r trefniadau.
- Tafliff e pêl fawr goch.
- Trefnwn ni cyngerdd i ddathlu canmlwyddiant yr ysgol.
- Gyrri di car mawr crand.
- Prynan nhw popeth o siopau crand.
- Derbyniwn ni graddau gwych yn yr arholiadau eleni.

YMARFERION ...

Newidiwch y berfau i ffurfiau cryno'r ferf:

1. Dydw i ddim yn gweld pwrpas i'r llyfr
2. Mae e'n cael llawer o hwyl
3. Ydy hi'n cael dod gyda ni?
4. Ydyn nhw'n gweld y ddrama?
5. Dydych chi ddim yn cael gyrru.
6. Maen nhw'n yfed y llaeth i gyd.
7. Dydw i ddim yn credu'r peth.

ADOLYGU I ORFFEN CYFIEITHWCH ...

- I'll wait
- I'll keep
- They walked
- She showed
- You'll read (ti)
- You'll arrive

- Arhosa i
- Cadwa i
- Cerddon nhw
- Dangosodd hi
- Darlleni di
- Cyrhaeddwoch chi



BERF / BERFENW? YSGRIFENNWCH FRAWDDEG YN CYNNWYS Y GEIRIAU HYN.

gwisg
o

dweud

gwisg
ai

ymhelaethu

cerddan

ysgrifennu

canaf

tanfrellwch
h
darllena

dadansodda

gwylio

gwrandawaf

cyfeiria

arsylwai
s

llwyddem

llwydddaist

arsylwi

ADOLYGU ... TROWCH Y GEIRIAU SYDD MEWN PRINT ITALIAIDD YN FERFAU CRYNO ...

1. *Mae'r athro wedi rhoi gwers rydd i ni.*
2. *Ro'n i'n cerdded bob cam i'r ysgol pan oeddwn i'n blentyn.*
3. *Roedden ni'n teimlo cywilydd bob tro ar ôl dweud celwydd.*
4. *Yn sydyn, roedd y disgybl wedi llewygu yn y dosbarth.*
5. *Roeddet ti'n clywed y Pennaeth yn dweud y drefn wrth Jac bob bore.*
6. *Roedden ni'n cael dau docyn i gêm Cymru v. Lloegr bob blwyddyn.*
7. *Mae'r myfyrwraig wedi llwyddo yn yr arholiad.*

